

Pob Swyddog Cyfrifol

23 September 2021

Datganiad Blynyddol i'ch rheoleiddiwr

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Yn ein llythyr dyddiedig 12 Awst 2021, gwnaethom gadarnhau dyddiadau'r Datganiad Cydymffurfiaeth eleni a roddwyd rhagor o fanylion, gan gynnwys y Llinellau Ymholi Allweddol y byddwn yn eu cymryd. Rwy'n ysgrifennu i roi mwy o wybodaeth a chyfarwyddiadau ac arweiniad i gefnogi eich cyflwyniad.

Cwblhau eich Cyflwyniad

Fel yr esboniwyd yn ein llythyrau blaenorol, bydd ffenestr Datganiad Cydymffurfiaeth 2021 ar agor o ddydd Llun 4 Hydref 2021 i ddydd Gwener 7 Ionawr 2022. Byddwn yn defnyddio'r llwyfan Citizen Space i gasglu eich cyflwyniad ar ran Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation hefyd.

Ynghlwm wrth y llythyr hwn mae [canllaw i ddefnyddwyr](#) i gynorthwyo eich cyflwyniad. Mae'r [canllaw i ddefnyddwyr](#) yn cynnwys:

- Nodyn i'ch atgoffa na fydd yn ofynnol i chi gyflwyno eich Datganiad Cydymffurfiaeth gyda llofnod ar wahân gan eich Cadeirydd, ond disgwylir i chi sicrhau eich bod chi, fel Swyddog Cyfrifol, eich Corff Llywodraethu a'i Gadeirydd wedi cytuno ar y datganiadau yr ydych yn eu gwneud.
- Y cwestiynau a ofynnir i chi yn eich Datganiad Cydymffurfiaeth. Cofiwch fod fersiwn dogfen Word o'r cwestiynau yn cael ei darparu i gynorthwyo'ch paratodau yn unig. Byddwn ond yn derbyn eich cyflwyniad drwy Citizen Space.
- Hysbysiad Preifatrwydd yn amlinellu sut y caiff eich datganiad ei brosesu a sut y byddwn yn cadw eich data'n ddiogel.

Byddwn yn anfon neges atoch ar y Porth pan fyddwn yn agor y ffenestr gyflwyno ar y 4 Hydref. Bydd hyn yn cynnwys dolen i lwyfan arolwg Citizen Space i gwblhau eich datganiad.

Gobeithiwn y bydd hyn yn egluro sut y bydd proses 2021 yn gweithio ond rydym yn hapus i gymryd unrhyw gwestiynau sydd gennych. I gysylltu ag Ofqual, ymatebwch yn uniongyrchol i'r llythyr hwn ar y Porth.

Os yw eich ymholiad ar gyfer Cymhwyster Cymru, anfonwch e-bost at statementofcompliance@qualificationswales.org, ac ar gyfer CCEA Regulation anfonwch e-bost at ccearegulation@ccea.org.uk.

Yn gywir,




Yun Ding

Cyfarwyddwr Cyswllt, Safonau ar gyfer Cyflenwi a Pherfformiad
Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol



Denver Davies

Pennaeth Monitro a Chydymffurfio, Cymwysterau Cymru



David Crosbie

Rheolwr Rhaglen, CCEA Regulation